

Astudiaeth Achos: Cerddor - Greg

Beth ydych chi'n ei wneud?

Mae gennyf yrfa amser llawn yn chwarae cerddoriaeth boblogaidd (canu gwlad, gwerin, roc ac ati) mewn barrau a chlybiau, yn ogystal â phriodasau, partiön, ffeiriau a gwyliau cerdd. Rwy'n ysgrifennu fy nghaneuon fy hun, ond mewn nifer o leoliadau rwy'n chwarae fersiynau o ganeuon artistiaid eraill yn bennaf.



Beth yw'ch cefndir?

Ces i fy magu mewn teulu cerddorol, ac yn dair oed dechreuas i chwarae'r ffidl. Pan oeddwn i'n bump, roedd fy mrawd a minnau mewn cerddorfa blant. Doedd e ddim bob amser yn brofiad plaserus i blentyn ifanc!

Penderfynas i adael a wnes i ddim wedi cymryd cerddoriaeth o ddifrif eto tan oeddwn i'n 18 oed. Codes i'r gitâr a darganfod, oherwydd fy hyfforddiant cerddorol cynharach, ei fod yn dod yn hawdd i mi.

Y rhan fwyaf anodd i mi oedd wynebu'r ofn o berfformio o flaen pobl eraill. Ond fe ddes i dros hynny ac rydw i wedi byw a gweithio fel cerddor proffesiynol ers hynny. Ar hyd y ffordd, ces i amser i astudio celfyddydau'r cyfryngau mewn coleg lleol.

Pa nodweddion sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn eich swydd chi?

Mae'n rhaid i chi fod yn hyderus i berfformio o flaen grwpiau mawr o bobl. Dylai cerddorion fod yn ddiwyd - mae'n rhaid iddynt ddal ati ac ymarfer, waeth pa mor galed yw hynny.

Mae bod yn ddyfeisgar a gallu addasu yn bwysig hefyd oherwydd mae'n rhaid i gerddorion chwilio am ffyrdd newydd o gyflwyno eu hunain trwy'r amser. Yn olaf, mae'n rhaid i chi gael dawn naturiol. Yn fy mhrofiad i, mae pobl naill ai'n cael eu geni gyda'r ddawn honno neu beidio.

Pa swyddi eraill allech chi ei wneud gan ddefnyddio'r sgiliau o'r swydd hon?

Mae cerddorion yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau. Gallai'r rhai sydd â phrofiad o weithio mewn stiwdio fod yn beirianwyr sain, a gallai'r rhai sydd â gwybodaeth gyffredinol dda o gerddoriaeth agor eu siop recordiau eu hunain.

Gall cerddorion sy'n gwneud sioeau yn rheolaidd fod yn dechnegwyr theatr. Byddai eu profiad perfformio yn eu helpu i fod yn bersonoliaethau radio neu deledu.

Pa newidiadau fydd yn y dyfodol?

Mae'r diwydiant cerddoriaeth wedi cael ei ganoli mwy a mwy. Gall cerddorion gael eu cerddoriaeth yn uniongyrchol i'r cyhoedd trwy'r rhyngwrdd, felly does dim rhaid iddyn nhw ddiybennu ar labeli recordio mawr mwyach. Bydd hyn yn cynyddu.

Oes nifer o gyfleoedd i fynd i mewn i'r yrfa hon?

Mae'n ddiwydiant cystadleuol iawn, a does dim llawer o arian i'w wneud, oni bai eich bod chi'n enwog iawn. Ond rwy'n credu bod rhai cyfleoedd gwych i gael. Mae adloniant yn rhan fawr o fywydau pobl. Gall cerddorion sy'n barodi i newid ac addasu i syniadau a thueddiadau newydd gael gyrfaeoddd hir sy'n rhoi llawer o foddhad.

Beth ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Rwy'n dwlu ar gerddoriaeth. Cefais fy magu mewn teulu cerddorol, ac ers yn blentyn bach, bu gen i ddiddordeb mawr mewn chwarae cerddoriaeth a dysgu popeth am gerddoriaeth.

Rwy'n mwynhau perfformio cerddoriaeth mewn gwahanol leoliadau. Rwy'n chwarae mewn priodasau, clybiau nos,

partïon corfforaethol ac ati.

Mae ochr gymdeithasol y swydd yn ddiddorol iawn hefyd. Rwy'n cwrdd â phob math o bobl: cerddorion eraill, technegwyr sain, cynhyrchwyr, yn ogystal â'r bobl sy'n gwerthfawrogi fy ngherddoriaeth ac sy'n dweud hynny wrtho i ar ôl perfformiad.

Beth nad ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Gall fynd ar daith fod yn galed. Rydych chi oddi cartref trwy'r amser ac mae'n rhaid i chi weithio pan fydd pobl eraill yn mwynhau eu hunain.

Pa gyngor fyddwch chi'n ei rhoi i rywun sydd â diddordeb yn eich gyrfa chi?

Peidiwch â bod ofn addasu i newidiadau yn y diwydiant. Ceisiwch ymarfer yn galed iawn, daliwch ati, ac yn bennaf oll, mwynhewch eich hun.

Diwrnod ym mywyd

10:00 am - 12:00 pm

Siarad dros y ffôn â chleientiaid, asiantau a cherddorion eraill. Gosod dyddiadau ar gyfer y perfformiadau nesaf a gwneud trefniadau eraill.

12:00 pm - 4:00 pm

Ymarfer ar y gitâr. Cyfansoddi cerddoriaeth ar y gitâr ac ar y cyfrifiadur. Defnyddio cyfrifiaduron i drefnu'r gerddoriaeth.

4:00 pm - 7:00 pm

Ymlacio a chael saib.

7:00 pm - 8:00 pm

Llwytho'r offer i'r car a gyrru i sioe.

8:00 pm - 9:00 pm

Gosod fy offer.

9:00 pm - 1:30 am

Perfformio (tair set gyda dwy egwyl 25 munud).